

# Y Rhyfel Byd Cyntaf : The First World War

## Llangernyw

### Y Milwyr a Ddaeth Adref • The Soldiers Who Returned

**William Frederick Barnwell** (Preifat) Ymrestrodd â'r fyddin ym mis Rhagfyr 1914. Roedd yn fab i ysgofeistr Ysgol Llangernyw, ac yn athro trwyddedig ei hun hefyd, wedi iddo fod yn athro yn ysgol Trofarth am dymor cyn y rhyfel. Wedi'r rhyfel, fe'i penodwyd yn brifathro ar ysgol Llangernyw ar ôl ei dad, a fu farw ddydd Nadolig 1917.

**John Barnwell**. Brawd W.F. Barnwell. Bu'n gwasanaethu yn Ffrainc.

**Hugh Davies**. Llythyrgladwr lleol a oedd wedi ymrestru ers y dechrau.

**William David Davies**, y Gors. Ganed ef yn y Gors yn 1900, yn blentyn ieuengaf Edward a Sarah Davies, a brawd i John Edward, Hetti, Ebenezer, a Blodwen.

**Edward Evans**, Maesol a Hendre Ddu. (Preifat). Fe'i clwyfwyd ym mis Ebrill 1916, rywle yn Ffrainc.

**Ellis Evans**, Wern (Preifat). Bu'n gwasanaethu yn yr Aifft.

**William Evans**, gynt o'r Wern. Cafodd niwed i'w goes yn 1916 tra oedd rywle yn Ffrainc, ac wedi cael ei symud i ysbyty yng Nghaerfaddon.

**William Evans**, Bryn Barcut. Fe'i clwyfwyd yn 1916.

**David Hughes**, Cwm. Priod Annie a thad John Hughes, Y Graig. Bu farw Dafydd Hughes ym Maes y Dail, Llangernyw ar 14-9-1954.

**Edward Hughes**, Tŷ Capel Cefn Coch. (Preifat). Fe'i clwyfwyd yn ei goes yn ystod gwanwyn 1918 a bu mewn ysbyty yn y 'base' yn Ffrainc. Cyhoeddwyd ym mis Rhagfyr yr un flwyddyn ei fod wedi cael dod adref o Ysbyty Miwlwr Cinmel wedi cael torri ei droed i ffwrdd oherwydd y clwyfa a dderbyniodd yn y rhyfel.

**John Jackson**, Coda Mawr. Ymunodd â Chorfflu Gwasanaeth y Fyddin fel gof. Tra oedd gyda'r fyddin yn yr Aifft, llosgwyd ei ferch Mary, 8 oed, i farwolaeth pan gydiodd y tân yn ei dilad wrth iddi dynnu tecell oddi ar y tân.

**David James Jones**. (Gynnwr). Mab i David a Mary Jones, ac wyr i David Jones, Cloiau. Cyhoeddwyd yn Awst 1915 bod y Cloddiwr D. James Jones wedi dod adref am ychydig ddyddiau o rywle yn Ffrainc. Wedi'r rhyfel bu'n gweithio yn swyddfa'r post yn Crewe ac ar ôl ymddeol daeth i fyw i un o'r tai yn Bont Faen. Cychwynnodd gôr meibion yn Llangernyw.

**Edward D. Jones**, Canol Llan (Preifat). Bu'n gwasanaethu yn yr Aifft.

**Evan Jones**, Bron 'Rhwylfa'. Credai rhai o ardalwyr Llangernyw y dylai Evan Jones fod wedi cael y Victoria Cross neu'r gyyfelyb am gyflawni gweithred honod ddewr yn ystod y rhyfel. Bu criw o Almaenwyr yn saethu o ben bryn ato ef a'i grŵl, a gwirfoddolodd Evan i fynd i'w dinistrio, ac fel y achub bywydau'r crïw Prydeinig.

**Herbert Jones** B.A. Tua 1899 ymadawodd â Llangernyw i fod yn Gomisiynwr Cynorthwyo'r Prydain yn Nigeria. Rhoddodd y gorau i'w swydd ar mwyn dychwelyd ac ymuno â'r fyddin Brydeinig. Fe'i clwyfwyd yn Ypres yn 1916 a bu farw o'i glwyfau yn 1922.

**John Jones**, Isfrynn. Bu yn y Marchfagnelwyr Brenhinol a'r Cadfagnelwyr Brenhinol, yn Ffrainc a Gwlad Belg. Roedd yng Nghoed Mametz yn y frwydr yno. Priododd ag Elizabeth a ganed iddynt Adelaide, Myfanwy a Robert Pierce Jones. Bu farw yn Isfrynn ar 7-6-1962, yn 83 oed.

**John O. Jones**, Efail y Pentre. Fe'i dyrchafwyd i swydd Uwch-Sarsiant gyda Chorfflu Gwasanaeth y Fyddin yn Ninbych ym mis Hydref 1915.

**William Jones**, Isgoed, Pen Isa'r Llan. Ganed William David Jones yn Lerpwl ond daeth y teulu'n ôl i Iscoed, Llangernyw. Bu William yn garcharor rhyfel yn yr Almaen am fisoeedd yn 1918, a'i deulu heb wybod lle roedd o.

**Y Canon Robert Edwyn Roberts** M.A., Hendre Ddu. Yn 1915-1916 bu'n aelod o'r Gwarchodlu Cymreig a bu'n gwasanaethu fel Caplan i'r Gatrâu Gymreig yn Ffrainc.

**Wm. Jones**, Pentre Wern

**J. Lewis**, Pant y Rhedyn

**Lewis W. Wynn Lloyd**, Tŷ Du. (Cadben) Aeth i fyw i Gaernarfon, o ble yr ymunodd â'r fyddin fel milfeddyg a ddechrau'r rhyfel, yn Is-Gadben. Yn 1916 fe'i dyrchafwyd yn Gadben.

**Robert Lloyd**, Glog Ddu. (Preifat) 'RWF'. Mab i Evan ac Eunice Lloyd, Glog Ddu. Ganed ef ym Mhentrefoelas yn 1895. Ymunodd â'r fyddin ar ddechrau'r rhyfel ac erbyn Rhagfyr 1914 roedd ar ei ffodd i'r India gyda'i gatrâu. Cafodd niweidiau dirifol i'w goes yn ymgrych y Dardanelles yn 1915.

**Evan Owen**, Pandy Bryn Barcut. (Ifan Bach y Saethwr Mawr). Dyn bychan oedd Ifan ac yn adnabyddus fel potsi a saethwr. Felly, pan ymunodd â'r fyddin, cafodd ei ddyrchafu'n 'sniper' yn fuan iawn, gan ennill dwy streipen ar ei fraich. Darddeoffd yn drwm o effaith y magnelau tanlyd ac yn 1916 bu am gyfnod mewn ysbyty yn Llundain.

**John Owen**, Fron Wen. Ymunodd â'r fyddin ond oherwydd salwch, treuliodd ei amser yn lwerddon. Wedi'r rhyfel priedodd â Margaret Williams, Llwyn Llydan. Pandy Tudur, a ganed iddynt Goronwy (Nannerth), Tegwen a Menai.

**O. J. Owen**. Ym mis Awst 1916 cyhoeddwyd bod O.J. Owen wedi dychwelyd o Ffrainc i un o ysbytai Birmingham a'i fod yn araf wella.

**E. Pierce**. Gyrrwr yn y Magnelwyr Brenhinol. Wedi bod ar y ffrynt er y dechrau ac wedi bod trwy'r holl frwydrau mawr er yr enciliad o Mons.

**G. A. Reed**, (Capten)

**D. Lloyd Rees** (Corporal) Fe'i clwyfwyd am yr ail waith yn 1915.

**J. B. Roberts**, Postman. Ym mis Medi 1916 ymunodd J. B. Roberts â'r fyddin wedi iddo fod yn yrwr y cerbyd post o Abergaele i Langernyw am y 14 mlynedd ddiwethaf.

**R. Roberts**. Ym mis Medi 1916 hysbyswyd fod y Milwr R. Roberts, perthynol i'r Middlesex Regiment, brodor o'r ardal hon, ar goll.

**H. Taylor** (Corporal) Bu'n arddwr yn Hafodunos. Ymrestrodd yn y fyddin ar gychwyn y rhyfel. Fe'i clwyfwyd yn 1917.

**Griffith Thomas** (Preifat). Yn nechrau 1919 cyhoeddwyd ei fod wedi bod ar goll yn ystod y rhyfel am gyfnod maith.

**John Rigby**. (Preifat) Bu'n gweithio ar ffermydd yr ardal am flynyddoedd.

**Arthur E. Sandbach**, Hafodunos. (Cadfridog) Ymunodd â'r rhyfel ar y cychwyn yn 1914. Yn nechrau 1915 fe'i henwyd fel "un a wnaeth wasanaeth arbennig a gwrol yn y rhyfel hwn". Yng ngwanwyn 1915 fe'i niweidiwyd gan ffrwydr-belen, yn hwn ei 9fed ymgrych. Fe'i dyrchafwyd yn Uwchfrigadydd yn 1916.

**Peter S. Williams**, Cefn Isa. (Preifat) Fe'i clwyfwyd yn 1916 a 1917.



William David Davies




WM. David Jones & David James Jones



W.F. Barwell



Jack Barnwell



Robert Edwin Roberts



John Jones

**William Frederick Barnwell** (Private). He enlisted in the army in December 1914. He was the son of the school master at Llangernyw School, and also a licensed teacher himself, having been a teacher at Trofarth school for a term before the war. Following the war, he was appointed headmaster of Llangernyw school after his father, who died on Christmas day 1917.

**John Barnwell**. The brother of W.F. Barnwell. He saw service in France.

**Hugh Davies**. A local postman who had enlisted from the outset.

**William David Davies**, y Gors. He was born at y Gors in 1900, the youngest child of Edward and Sarah Davies, and the brother of John Edward, Hetti, Ebenezer, and Blodwen.

**Edward Evans**, Maesol and Hendre Ddu. (Private). He was wounded in April 1916, somewhere in France.

**Ellis Evans**, Wern (Private). He saw service in Egypt.

**William Evans**, formerly of Wern. He suffered a leg injury in 1916 whilst somewhere in France and had been moved to a hospital in Bath.

**William Evans**, Bryn Barcut. He was wounded in 1916.

**David Hughes**, Cwm. The husband of Annie and father of John Hughes, Y Graig. Dafydd Hughes died at Maes y Dail, Llangernyw on 14-9-1954.

**Edward Hughes**, Tŷ Capel Cefn Coch. (Private) He was wounded in the leg during the spring of 1918 and was in hospital at the base in France. It was announced in December the same year that he had been allowed home from Kimmel Military Hospital having had his foot amputated because of the wounds he suffered in the war.

**John Jackson**, Coda Mawr. He joined the Army Service Corps as a blacksmith. Whilst with the army in Egypt, his 8 year-old daughter, Mary was burnt to death when her clothes caught fire as she took a kettle off the fire.

**David James Jones**. (Gunner). The son of David and Mary Jones, and grandson of David Jones, Cloiau. It was announced in August 1915 that Sapper D. James Jones had come home for a few days from somewhere in France. Following the war he worked at the post office in Crewe and after retiring came to live in one of the houses at Bont Faen. He founded a male voice choir in Llangernyw.

**Edward D. Jones**, Canol Llan (Private). He saw service in Egypt.

**Evan Jones**, Bron 'Rhwylfa'. Some of the residents of Llangernyw believed that Evan Jones should have been awarded the Victoria Cross or its equivalent for an extremely brave feat of valour during the war. A company of Germans were firing at him and his companions from a hilltop, and Evan volunteered to venture to destroy them, so saving the lives of the British company.

**Herbert Jones** B.A. Around 1899 he left Llangernyw to become a British Assistant Commissioner in Nigeria. He relinquished his post in order to return and join the British army. He was wounded at Ypres in 1916 and died of his injuries in 1922.

**John Jones**, Isfrynn. He served in the Royal Horse Artillery and the Royal Field Artillery, in France and Belgium. He was in Mametz Wood during the battle there. He married Elizabeth and had three children, Adelaide, Myfanwy and Robert Pierce Jones. He died at Isfrynn on 7-6-1962, at the age of 83.

**John O. Jones**, Efail y Pentre. He was promoted to Sergeant Major with the Army Service Corps at Denbigh in October 1915.

**William Jones**, Isgoed, Pen Isa'r Llan. William David Jones was born in Liverpool but the family returned to Iscoed, Llangernyw. William was a prisoner of war in Germany for months in 1918, without his family knowing where he was.

**Canon Robert Edwyn Roberts** M.A., Hendre Ddu. During 1915-1916 he was a member of the Welsh Guards and served as Chaplain to the Welsh Regiment in France.

**Wm. Jones**, Pentre Wern

**J. Lewis**, Pant y Rhedyn

**Lewis W. Wynn Lloyd**, Tŷ Du. (Captain). He went to live in Caernarfon, from where he joined the army as a vet at the beginning of the war, as a Lieutenant. In 1916 he was promoted to Captain.

**Robert Lloyd**, Glog Ddu. (Private) RVF. The son of Evan and Eunice Lloyd, Glog Ddu. He was born in Pentrefoelas in 1895. He joined the army at the beginning of the war and by December 1914 he was on his way to India with his regiment. He suffered serious injuries to his leg in the Dardanelles campaign in 1915.

**Evan Owen**, Pandy Bryn Barcut. (Little Ifan the Great Shot). Ifan was small of stature but well-known as a poacher and marksman. So, when he joined the army, he was very soon promoted as a sniper, winning two stripes on his arm. He suffered heavily from the effects of blazing artillery and spent a period at a London hospital in 1916.

**John Owen**, Fron Wen. He joined the army but owing to illness, spent his time in Ireland. Following the war he married Margaret Williams, Llwyn Llydan, Pandy Tudur, and they had three children, Goronwy (Nannerth), Tegwen and Menai.

**O. J. Owen**. In August 1916 it was announced that O.J. Owen had returned from France to a Birmingham hospital and was making a slow recovery.

**E. Pierce**. A driver in the Royal Artillery. He had been at the front line from the outset and been through all the major battles since the retreat from Mons.

**G. A. Reed**, (Captain)

**D. Lloyd Rees** (Corporal). He was wounded a second time in 1915.

**J. B. Roberts**, Postman. In September 1916 J.B. Roberts joined the army having been the driver of the post vehicle from Abergaele to Llangernyw for the last 14 years.

**R. Roberts**. In September 1916 it was announced that the Soldier R. Roberts, attached to the Middlesex Regiment, and a native of this area, was missing.

**H. Taylor**, (Corporal). He was a gardener at Hafodunos. He enlisted in the army at the beginning of the war. He was wounded in 1917.

**Griffith Thomas** (Private). In early 1919 it was announced that he had been missing during the war for a long while.

**John Rigby**. (Private). He worked on farms in the area for years.

**Arthur E. Sandbach**, (General) He joined the war at its outset in 1914. In early 1915 he was cited "for brave and outstanding service in this war." In the spring of 1915 he was wounded by a bombshell, in this his 9th campaign. He was promoted to Major-General in 1916.

**Peter S. Williams**, Cefn Isa. (Private). He was wounded in 1916 and 1917.